Ysgol Gyfun Garth Olwg

Adroddiad Blynyddol
Y Corff Llywodraethol i Rieni

2009-2010

Ysgol Gyfun Garth Olwg
Y Brif Ffordd
Pentre'r Eglwys
Pontypridd
CF38 1DX

Rhif Ffôn: 01443 219580
Ffacs: 01443 219596
e.bost: gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
Gwefan: www.gartholwg.org.uk

Pennaeth: Ms T Anne Morris

Gair gan y Cadeirydd

Gorffennaf, 2010

Mae'n anodd credu fod blwyddyn arall wedi mynd heibio ers yr Adroddiad diwethaf - bu'n flwyddyn dda iawn yn hanes yr ysgol.

Cafwyd canlyniadau ardderchog yn arholiadau TGAU a Lefel A yn 2009, a dwi'n siŵr y bydd rhieni yn ymuno â'r Corff Llywodraethol i longyfarch y disgyblion a'r staff ar eu llwyddiant.

Er hynny 'nid da lle gellir gwell' ac mae'r Pennaeth a'r staff yn parhau i weithio'n galed gan ddatblygu'r ysgol mewn nifer o wahanol feysydd, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i ehangu ac yn sicrhau canlyniadau llwyddiannus i bob disgybl. Eleni mae Cwricwlwm Cymwyseddau Newydd: Meddwl-Dysgu-Llwyddo, wedi cael ei gyflwyno i Flwyddyn 7 ac mae'r ddarpariaeth 14+ wedi cael ei ehangu - yn arbennig yn y maes galwedigaethol.

Roedd yn galondid gweld y canran uchaf ers rhai blynyddoedd [78%] yn aros yn yr ysgol ar gyfer eu haddysg 16+. Mae presenoldeb 6ed Dosbarth cryf yn gaffaeliad mawr i'r ysgol.

Bu Cynllun Trawsnewid yr Awdurdod Addysg yn bwnc trafod ym mhob un o gyfarfodydd y Corff Llywodraethol eleni ac mae'n siwr ei fod wedi bod yn bwnc trafod ymhlith rhieni hefyd. Rydym yn hynod falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan eu barn yn glir o ran y Cynllun Trawsnewid ac addysg cyfrwng Gymraeg drwy'r cyfarwyddyd canlynol i'r Awdurdod Addysg:

> *"The Outline Business Case will need to consider how the Learning Partnership will* ***ensure that there is no reduction*** *in Welsh Medium Provision in the local authority area including ensuring that young people's learning through the medium of Welsh is supported and reinforced by the Welsh ethos and culture of the learning environment."*

Ein gofal ni fel Llywodraethwyr yw sicrhau addysg gyflawn Gymraeg i ddisgyblion Garth Olwg o 11 i 18 oed. Ar hyn o bryd mae'n anodd gweld unrhyw ffordd i sicrhau hynny ond trwy gadw'r 6ed dosbarth yn yr ysgol mewn rhyw ffurf. Byddwn yn parhau i wylio'r sefyllfa yma yn ofalus yn y misoedd nesa. Mae Penaethiaid y pedair ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Sir yn cydweithio i sicrhau'r nod hwn.

Mae'n dda gweld ein bod yn parhau yn agos iawn at y brig ymhlith ysgolion Rhondda Cynon Taf gyda lefelau presenoldeb disgyblion, ond parhawn i annog rhieni i beidio cymryd gwyliau gyda'u plant yn ystod y tymor os yn bosib.

Yn olaf, hoffwn ddiolch eto i chi fel rhieni am eich cymorth a'ch cefnogaeth arbennig i'r ysgol. Diolch hefyd i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am ei holl ymdrechion. Anogaf rieni i'w cefnogi - grŵp bychan ydynt sy'n gweithio'n ddyfal ar ran ein holl ddisgyblion.

Mae crynodeb o'r Adroddiad llawn hwn yn cynnwys holl ganlyniadau'r ysgol am 2009 ynghyd ag ystadegau cysylltiedig. Bydd copi o'r Adroddiad hwn a'r Adroddiad Llawn ar wefan yr ysgol: <http://www.gartholwg.org.uk> o'r 6 Gorffennaf 2010. O dan reoliadau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, nid oes gofyn i Gyrff Llywodraethol gynnal cyfarfod blynyddol i rieni ond bob dwy flynedd ac eithrio bod 5% o rieni'r ysgol yn gofyn am y fath gyfarfod. Os bydd y nifer sylweddol hynny'n gofyn am gyfarfod eleni byddwn yn trefnu hynny o fewn y dyddiad penodedig. Mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol os ydych am dderbyn copi electroneg/papur o'r Adroddiad llawn.

Yn gywir,

Dr Dewi Hughes
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Corff Llywodraethu - Ysgol Gyfun Garth Olwg - *Governing Body*
Aelodaeth y Corff Llawn - *Members of the full Governing Body*

Cynrychioli / *Representing*	**Cynrychiolydd/** *Representative*	**Aelodau o'r Pwyllgorau Isod** *Members of the Following Committees*	**Diwedd cyfnod** *Term ending*
Llywodraethwr sy'n rhiant (6 aelod) *Parent Governor (6 members)*	Mr. Gareth Blainey	Cwricwlwm a Staffio; Disgyblu a Diswyddo; *Curriculum and Staffing; Staff Disciplinary and Dismissal*	31/08/2012
	Mrs. Heather Davies-Rollinson	Cwricwlwm a Staffio; Cefnogaeth, Cyfarwyddyd a Lles Disgyblion; Disgyblu/Diarddel Disgyblion *Curriculum and Staffing; Welfare, Guidance and Support of Pupils; Pupil Discipline and Exclusions*	31/08/2012
	Mr. Martyn Geraint	IS-GADEIRYDD / *VICE CHAIRPERSON* Cwricwlwm a Staffio; Cyfathrebu, Cymuned a Chyswllt Rhieni; Disgyblu/Diarddel Disgyblion; Rheoli Perfformiad y Pennaeth *Curriculum and Staffing; Communication, Community and Parental Links; Principal Performance Management*	31/08/2010
	Mr. Russell Isaac	Cyfathrebu, Cymuned a Chyswllt Rhieni; Cwynion, Achwyniad/Gallu; Diswyddiad Staff; Cwyn *Communication, Community and Parental Links; Complaints, Grievance/Capability; Staff Redundancy; Complaints*	31/08/2012
	Mrs. Karyl Mann	Cefnogaeth, Cyfarwyddyd a Lles Disgyblion; Cwricwlwm a Staffio; Cyfathrebu, Disgyblu/Diarddel Disgyblion; Disgyblu/Diswyddiad Staff; Achwyniad/Gallu *Guidance, Welfare and Support of Pupils; Curriculum and Staffing; Pupils Discipline and Exclusions; Staff Redundancy; Grievance/Capability*	31/08/2012
	Mr Hugh Masters-Williams	Finance and Buildings; Cwyn *Cyllid ac Adeiladau; Complaints*	31/08/2012
Cynrychiolydd Cyfetholedig (4 aelod) *Co-opted Representative (4 members)*	Mr. Denis Bryant	Cyllid ac Adeiladau; Rheoli Perfformiad y Pennaeth; *Finance and Buildings; Principal Performance Management*	31/08/2012
	Dr. Dewi Hughes	CADEIRYDD / *CHAIRPERSON* Cyfathrebu, Cymuned a Chyswllt Rhieni; Rheoli Perfformiad y Pennaeth; Panel Adolygu Cyflogau; Achwyniad/Gallu; Diswyddiad Staff; Cwyn *Communication, Community and Parental Links; Principal Performance Management; Salary Review Panel; Grievance/Capability; Staff Redundancy; Complaints*	31/08/2012
	Mr. Rhys Llewelyn	Cwricwlwm a Staffio; Cefnogaeth, Cyfarwyddyd a Lles Disgyblion; Panel Adolygu Cyflogau; Cwyn; *Curriculum and Staffing; Guidance, Welfare and Support of Pupils; Salary Review Panel; Complaints*	31/08/2012
	Dr. J. M. Pugh		20/09/203

Corff Llywodraethu - Ysgol Gyfun Garth Olwg - *Governing Body*
Aelodaeth y Corff Llawn - *Members of the full Governing Body*

(*Parhad / *Continued)

Cynrychiolydd AALl 5 (aelod) LEA Representative *(5 members)*	Mr. Raymond Butler	Cyllid ac Adeiladau; *Finance and Buildings*	23/09/2011
	Y Cynghorydd W. J. David	Cyllid ac Adeiladau; *Finance and Buildings*;	16/07/2013
	Mr. Emlyn Penny Jones	Cyllid ac Adeiladau; Cyfathrebu, Cymuned a Chyswllt Rhieni; Panel Adolygu Cyflogau; Disgyblu a Diswyddo *Finance and Buildings; Communication, Community and Parental Links; Salary Review Panel; Staff Disciplinary and Dismissal*	10/06/2010
	Y Cynghorydd Graham Stacey	Cyllid ac Adeiladau; Cyfathrebu, Cymuned a Chyswllt Rhieni *Finance and Buildings; Communication, Community and Parental Links*	17/04/2011
	T Cynghorydd D. H. Williams	Cyllid ac Adeiladau; Diswyddiad Staff; Disgybl/Diarddel Disgyblion; *Finance and Buildings; Staff Redundancy; Pupil Discipline and Exclusions*	16/07/2013
Cynrychiolydd Athrawon (2) *Teacher Representatives(2)*	Ms Lynwen John	Cyfathrebu, Cymuned a Chyswllt Rhieni; *Communication, Community and Parental links*	31/12/2011
	Mr. Berian John	Cwricwlwm a Staffio; *Curriculum and Staffing*	31/08/2012
Cynrychiolydd Staff Cynorthwyol *Support Staff Representative*	Mr. Gary Jenkins	Cyllid ac Adeiladau *Finance and Buildings*	31/12/2011
Clerc i'r Llywodraethwyr *Clerk to the Governors*	Mr. Geraint Price	Cyfarfodydd Corff Llawn; Cyllid ac Adeiladau; Cwricwlwm a Staffio *Full Governing Body Meetings, Finance and Buildings; Curriculum and Staffing*	
Pennaeth / *Principal*	Ms T Anne Morris	Cyfarfodydd y Corff Llawn ac Is-Bwyllgorau - *Full Governing Body meetings and Sub-committees*	
Cyswllt *Ysgol School Links*	Ms T. Anne Morris Mr. Mathew Evans Mrs. Alyson Davies Mrs. Elizabeth West Mr. Berian John Mr. Dewi George Miss Sandra Hughes Mr. Gareth Evans Mr. Gary Jenkins	Cyfarfodydd y Corff Llawn a Phwyllgorau yn ôl cyfrifoldebau *Full Governing Body meetings and Committees in relation to responsibilities*	
Cyswllt Vinci / *Vinci Link*	Mr. Kevin Ashman	Adeiladau; *Buildings*;	

1. Llawnrif yr ysgol 2009 - 2010: Mehefin 2010

Nifer y disgyblion Bl 7 - 11:	713
Nifer ym mlynyddoedd 12 a 13:	177
Nifer yr athrawon:	60

Byddwn yn croesawu 157 o blant i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2010.
*****(Gweler ATODIAD 1 am restr o staff llawn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol 2010 – 2011.)

2. Arolwg yr ysgol 19 Mawrth, 2007

Mae'r Llywodraethwyr yn monitro'r cynnydd yn y Cynllun Gweithredu hwn ac yn hapus fod yr Ysgol yn gweithredu'n briodol i'w wireddu. Mae materion allweddol wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella Ysgol 2007 - 2010, sydd yn cael ei werthuso ar hyn o bryd.

3. Cwricwlwm 2009 - 2010

Mae'r ysgol yn darparu Cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol sy'n cynnig cyfleoedd i bob disgybl ddatblygu'n llawn. Ym Medi 2008 cyflwynwyd Cwricwlwm Sgiliau newydd i ysgolion Cymru. Bellach mae pob blwyddyn CA3 yn dilyn y cwricwlwm hwn.

Yn ÔI-14 ac ÔI-16 mae Agenda Llwybrau Dysgu 14 - 19 Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyflwyno Mesur Sgiliau a Dysgu er mwyn ehangu'r cyfleoedd a'r profiadau sydd ar gael i bobl ifanc, yn enwedig yn y maes galwedigaethol. Mae'r ysgol eisoes yn cyrraedd gofynion y Mesur Sgiliau er mai Medi 2010 yw'r targed. Rydym yn parhau i gydweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid amrywiol er mwyn sicrhau ehangder cyfleoedd a phrofiadau i'r disgyblion i gyd. Ehangwyd y cwricwlwm ymhellach yng CA4 eleni drwy gyflwyno cwrs sy'n cael ei ddarparu gan Sportstrain ym Mlwyddyn 11 drwy CYFLEOEDD - sef partneriaeth Consortiwm pedair Ysgol Gymraeg RhCT a cholegau cysylltiedig. Cyflwynwyd cwrs BTEC Dawns ym Mlwyddyn 10 ac ehangwyd darpariaeth ÔI-16 eleni drwy gynnwys cwrs UG y Gyfraith a hynny drwy gyfrwng Fideo Gynadledda. Datblygiad cyffrous iawn eleni oedd cynnig rhaglen ddysgu Bagloriaeth Cymru. Nodir y datblygiadau cwricwlaidd llawn isod.

Llwybrau Dysgu newydd Fedi 2009:

Blwyddyn 7	Cwricwlwm Cymwyseddau newydd: Meddwl - Dysgu - Llwyddo;
Blwyddyn 10	i) Cyrsiau BTEC: Dawns; ii) Cyrsiau Technoleg Gwybodaeth Digidol AiDA a CiDA; iii) Cwrs CACHE Lefel 2;
Blwyddyn 12	i) Bagloriaeth Cymru - clod i'r ysgol oedd cael ein derbyn yn ein cais i fod yn ganolfan sy'n darparu'r cymhwyster hon ym Medi 2010; ii) Safon Uwch y Gyfraith – datblygiad o'r cwrs Uwch Gyfrannol y llynedd iii) BTEC Gwasanaethau Cyhoeddus; iv) Arweinydd y Campau - Cwrs Hyfforddi.

Eleni cychwynnwyd rhaglen ddysgu newydd ar gyfer Blwyddyn 7 sy'n ehangu'r cwricwlwm ac yn datblygu ar Gwricwlwm Sgiliau statudol 2008. Mae'r rhaglen yn dechrau drwy ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut maent yn dysgu a sut y gallant ddatblygu sgiliau meddwl a dysgu i'w cynorthwyo i ddysgu'n well.

4. Cyllid 2009 – 2010

Gwelir adroddiad ariannol yr ysgol am y flwyddyn 2009/2010 yn ATODIAD 2. Mae gwybodaeth ynglŷn â chyllideb 2010/2011 ar gael yn yr Ysgol.

5. Prosbectws yr Ysgol 2010 – 2011

Rydym yn adolygu cynnwys Prosbectws yr Ysgol yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau mae'r Cynulliad Cenedlaethol neu gyrff perthnasol eraill yn gofyn amdanynt neu'n deddfu. Fel arfer,

byddwn yn dosbarthu copi o'r prosbectws i rieni y mae eu plant yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf, neu'r rheiny sy'n trosglwyddo o ysgol uwchradd arall.

Rydym yn hysbysu rhieni pan fod unrhyw newidiadau yn y prosbectws cyfredol. Ymwelodd Ms T Anne Morris, Pennaeth, Mr Matthew Evans a Mrs Alyson Davies, Dirprwyon â chyfrifoldeb Trosglwyddo a Miss Menna Lewis, Pennaeth Blwyddyn 7 a Chyswllt Cynradd Uwchradd â'r pum ysgol gynradd gysylltiedig â ni ym mis Medi a Hydref eleni, er mwyn cyflwyno'r ysgol a'i hathroniaeth i rieni disgyblion Bl6. Ymwelwyd hefyd ag ysgol sydd y tu allan i ddalgylch yr ysgol ond lle mae disgyblion yn draddodiadol wedi mynychu Ysgol Gyfun Garth Olwg. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn ceisiadau gan rieni o'r tu allan i'r dalgylch yn flynyddol.

6. Canlyniadau Arholiadau Allanol Haf 2009

Rhestrir canlyniadau arholiadau allanol a phrofion yr ysgol yn y llyfryn *'Crynodeb o Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni 2009 - 2010'.* Dychwelodd 78% o ddisgyblion i'r 6ed Dosbarth eleni i astudio ar gyfer eu cyrsiau Ôl-16 - yr uchaf ers nifer o flynyddoedd.

7. Cyrchfannau Disgyblion 16 oed 2008 - 2009: Dyddiad yr Arolwg: 31 Hydref 2009

	Blwyddyn 11			Blwyddyn 12			Blwyddyn 13			Blwyddyn 14		
	M	F	T	M	F	T	M	M	F	T	M	M
Nifer o Ddisgyblion	60	84	**144**	39	55	**94**	20	48	**68**	2	0	**2**
Yr Un Ysgol	37	66	**103**	34	45	**79**	3	3	**6**	0	0	**0**
Ysgol Arall	2	1	**3**	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**
Addysg Bellach	13	14	**27**	2	1	**3**	1	2	**3**	0	0	**0**
Addysg Uwch	0	0	**0**	0	1	**1**	11	30	**41**	1	0	**1**
Blwyddyn Fwlch	0	0	**0**	0	0	**0**	3	5	**8**	1	0	**1**
Cyflogaeth arall – â hyfforddiant	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**
Cyflogaeth arall – heb hyfforddiant	1	0	**1**	0	1	**1**	0	4	**4**	0	0	**0**
Hyfforddiant: Statws Hyfforddi	1	1	**2**	1	4	**5**	0	0	**0**	0	0	**0**
Hyfforddiant: Statws Cyflogedig	1	1	**2**	1	0	**1**	0	1	**1**	0	0	**0**
Gwybodaeth ddim ar Gael	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**
Di-waith – wedi cofrestru	2	1	**3**	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**
Di-waith – heb eu cofrestru	1	0	**1**	0	2	**2**	2	3	**5**	0	0	**0**
Anhysbys: Wedi Symud	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**	0	0	**0**
Dim Ymateb i'r Arolwg	2	0	**2**	1	1	**2**	0	0	**0**	0	0	**0**

8. Presenoldeb

Mae'r ysgol yn parhau i osod pwyslais mawr ar gynyddu lefelau presenoldeb disgyblion. Rydym yn gweithredu'n gyson er mwyn gwneud hynny ac mae strategaethau penodol yn dwyn ffrwyth. Rydym yn falch iawn i ddweud ein bod eleni wedi cyrraedd ein targed o 93% - targed Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn gyson rydym ymhlith y tair ysgol sy'n cyrraedd lefelau presenoldeb uchaf Rhondda Cynon Taf - gyda thrwch blewyn rhyngom a'r ysgol uchaf. Gweithiwn yn agos iawn gyda'r Swyddog Lles er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu patrymau presenoldeb llwyddiannus.

Hoffai'r Llywodraethwyr dynnu sylw rhieni at y gorchymyn statudol sy'n datgan mai 10 diwrnod o wyliau yn unig a ganiateir ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'r ysgol yn argymell yn gryf na ddylai disgyblion fynd ar wyliau o gwbl yn ystod tymor ysgol. Ni awdurdodir absenoldeb heb lythyr/nodyn.

Gofynnir yn daer am gefnogaeth rhieni yn enwedig rhieni Blwyddyn 10 ac 11 i sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb i bob disgybl. Mae absenoldeb yn cael effaith andwyol nid yn unig ar safonau academaidd ond gall hefyd rhwystro datblygiad llawn a chymdeithasol unigolyn, newid patrymau ffrindiau, yn ogystal â rhwystro disgyblion rhag cyflawni potensial mewn arholiadau cyhoeddus.

Targed presenoldeb yr ysgol eleni yw 93% - sef targed Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymfalchïwn ein bod fel ysgol yn flynyddol, yn un o'r tair ysgol gorau eu lefelau presenoldeb yn yr Awdurdod.

Ystadegau Presenoldeb yr ysgol: Medi 2009 – Mehefin 2010

Blwyddyn	Nifer y disgyblion	Presenoldeb - %
7	133	94.3
8	136	*93.1*
9	142	*92.2*
10	142	*92.2*
11	156	*90.5*
Ysgol Gyfan:11 - 16	**709**	**93.0**

% Absenoldeb heb awdurdod	**0.8**
% Pob absenoldeb	**6.6**

9. Amcanion yr ysgol o ran chwaraeon a'r ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon

Mae'r adran Addysg Gorfforol yn cyflwyno rhaglen gytbwys sydd yn bodloni gofynion y disgybl fel y gall fwynhau pob agwedd o'r pwnc. Rhoddir y cyfle i bob disgybl ddatblygu yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn gognitif. Mae'r cwricwlwm Addysg Gorfforol yn cynnig amrediad cynhwysfawr o brofiadau sy'n cyrraedd anghenion unigol bob disgybl, a drwy hyn yn eu hannog i gymryd rhan fel perfformwyr, arsylwyr neu fel swyddogion.

Mae datblygiad o hyder, goddef, a'r gwerthfawrogiad o'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain ac eraill yn rhan bwysig iawn o'r broses ddysgu.

Drwy gyflwyno'r rhaglen hon bwriedir estyn gorwelion y disgyblion a'u paratoi i gymryd mantais o'r cyfleodd a roddir, ac i'w cyflwyno i'r byd hamdden sydd ar gael iddynt. Bydd hefyd yn meithrin ynddynt yr arferion da hynny sy'n mynd i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau a fydd yn eu harwain tuag at ffordd o fyw a fydd yn weithredol ac yn iach.

Yn ogystal â chynnig gymnasteg, athletau a dawns, mae athrawon yr adran, sydd bob un â chymwysterau addas yn eu meysydd eu hunain, yn rhoi cyfle i ddisgyblion chwarae'r chwaraeon canlynol yn yr ysgol:

- Merched CA3 — hoci, pêl fasged, pêl rwyd, pêl foli, pêl droed, rownderi, badminton, gweithgareddau antur;
- Bechgyn CA3 — hoci, rygbi, pêl fasged, pêl droed, badminton, criced, pêl fâs, gweithgareddau antur;
- Merched CA4 — hoci, pêl fasged, pêl rwyd, pêl droed, badminton, aerobics, rygbi digyswllt;
- Bechgyn CA4 — hoci, rygbi, pêl fasged, pêl droed, badminton.

Dysgir cyrsiau TGAU, BTEC a chwrs Arweinydd y Campau yn 14+ ac Uwch Gyfrannol, Safon Uwch Addysg Gorfforol ac Arweinydd y Campau 16+ o fewn yr Adran yn yr ysgol. Mae darparwyr allanol yn cynnig cwrs Arweinydd y Campau NVQ Lefelau 2 a 3.

Cynhelir rhaglen eang o weithgareddau yn ystod yr awr ginio, ac ar ôl oriau ysgol ac mae'r gweithgareddau hyn ar gael i bob disgybl sydd â diddordeb. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn y cynghreiriau lleol a sirol mewn rygbi, pêl droed, pêl fasged, hoci a phêl rwyd, traws-gwlad ac athletau.

Defnyddir cyfleusterau'r ysgol yn wythnosol gan amryw o glybiau ac asiantaethau allanol. Mae'r Adran yn datblygu cysylltiadau gyda hyfforddwyr a phobl broffesiynol allanol gyda'r bwriad o'u gwahodd i weithio gyda'r disgyblion.

10. Adolygu Polisïau'r Ysgol

Mae'r ysgol wedi paratoi nifer o ddogfennau polisi sy'n trafod meysydd y cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol a'r Corff Llywodraethol yn adolygu y rhain yn barhaus ac yn eu diweddaru ar gyfer cynnwys datblygiadau a gofynion deddfau newydd.

Mae adolygu polisïau a strategaethau'r ysgol yn rhan o gylch gwaith Pwyllgorau'r Llywodraethol.

11. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion a goblygiadau Côd Ymarfer Ebrill 2002, ac o ganlyniad, wedi addasu ei harfer wrth ymwneud a'r garfan hon o ddisgyblion. Anelir yn bennaf oll at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant Ysgol Gyfun Garth Olwg sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Gweithredir polisi integreiddio yn Garth Olwg sydd yn rhoi cyfle i bob disgybl ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae Arweinwyr Pwnc yn ymdrechu i sicrhau bod meysydd llafur, deunyddiau dysgu, profiadau a dulliau dysgu amrywiol ar gael i ddiwallu anghenion pob disgybl, beth bynnag yw lefel ei allu, gan ymestyn a chynnal yn ôl y gofyn. Rhoddir sylw i rai disgyblion mewn grwpiau bach y tu allan i'r dosbarth. Bryd arall, trefnir bod aelod o'r Adran Gynnal yn cynnal disgyblion o fewn dosbarthiadau'r brif ffrwd, gan amlaf yn y pynciau craidd.

Dilynir y model asesu tri chyfnod a argymhellir yn y Côd Ymarfer diwygiedig. Disgrifir y lefelau o sylw a roddir i ddisgyblion fel: 'Gweithredu Ysgol', 'Gweithredu Ysgol a Mwy' a 'Datganiad'. Mae'r disgrifiad 'Gweithredu Ysgol a Mwy' yn ddilys pan fydd angen cymorth asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae 80 o ddisgyblion o Flynyddoedd 7 – 13 ar gofrestr yr Adran – 51 a'r 'Gweithredu Ysgol', 29 'Gweithredu Ysgol a Mwy'. Mae gan 1 disgybl 'Note in Lieu' ac mae gan 2 disgybl datganiad.

O fewn yr Adran Cynnal mae yna ddau athro profiadol iawn yn cyfrannu at ddarpariaeth dysgu uniongyrchol ynghyd â chynhaliaeth mewn gwersi arbennig i grwpiau bach o ddisgyblion. Eleni mae pob cynorthwywraig dysgu o fewn yr adran yn llawn amser, yn gweithio gyda disgyblion penodol. Mae gan un cynorthwyydd gymhwyster Anogwr Dysgu ac mae'r ddwy arall wedi ennill cymhwyster Gweinyddes Dysgu NVQ Lefel 3.

Mae'r Seicolegydd Addysg yn ymweld â'r ysgol bob pythefnos. Darperir athrawon teithiol dyslecsia gan y ddau AALl ac ymwelant yn wythnosol. Ceir hefyd gwasanaeth athro arbenigol a chyfrifoldeb dros blant ag anawsterau emosiynol/ymddygiadol unwaith yr wythnos. Mae Mr Kevin Jones yn gweithio gyda rhai disgyblion i feithrin a datblygu sgiliau positif o ran rheoli ymddygiad a gwella perthnasau gyda chyfoedion ac athrawon.

Wrth ymwneud â'r holl asiantaethau gwahanol, ein blaenoriaeth yw sicrhau deialog effeithiol rhyngddynt â'r ysgol a'r rhieni, er mwyn manteisio o'u cyngor a'u harbenigedd a chreu cyfleoedd dysgu addas i bob disgybl. Ffocws hollbwysig yn y Côd Ymarfer diwygiedig yw creu partneriaeth dda rhwng yr ysgol a rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Ceisia'r ysgol hyrwyddo hyn ar bob achlysur.

Yn bennaf oll, anelir at feithrin diwylliant o lwyddiant trwy gydnabod a chanmol ymdrech y disgybl unigol. Eleni, mae'r ysgol yn parhau gyda'r drefn o osod y Cynlluniau Addysgol Unigol ar gyfer plant ag anawsterau dysgu ar system gyfrifiadurol yr ysgol.

12. Y Gymdeithas Rieni ac Athrawon

Mae Cymdeithas Rieni'r ysgol yn arbennig o weithgar a diolchwn iddynt am eu cefnogaeth gyson a brwd. Trefnant nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion yr ysgol ac er mwyn codi arian. Cefnogant gynnal a chadw Cwrt y Cadno yn ogystal.

13. Cysylltiadau â'r Gymuned

Mae Ysgol Gyfun Garth Olwg yn rhan o Gymuned Ddysgu Garth Olwg ac yn rhan o'r gymuned leol. Mae'r Ganolfan Gydol Oes yn cynnig darpariaeth eang iawn i'r gymuned o bob oed ac mae disgyblion y campws yn elwa'n fawr o'r gweithgareddau a drefnir ac a fwynheuir ar y cyd.

Mae'r cyswllt yn cynnwys:

i. Disgyblion yr ysgol yn cynorthwyo gyda gweithgareddau cymunedol a gynhelir yn y Ganolfan Gydol Oes – e.e. disgyblion y cwrs Arlwyo yn darparu ac yn gweini lluniaeth ar gyfer achlysuron, adloniant ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

ii. Gwahoddir trigolion y pentref i achlysuron fel cyngherddau a ffeiriau.

iii. Cyflogir cwmnïau lleol ar gyfer gwaith yn yr ysgol a chyflogir trigolion y pentref fel staff atodol e.e. cogyddion, glanheuwyr, menywod gwarchod awr ginio.

iv. Cysylltir â chymunedau'r disgyblion drwy ymweld â'r Ysgolion Cynradd Cymraeg yn flynyddol, ac yn achlysurol drwy gynnal cyngerdd neu weithgaredd cyffelyb yn y cymunedau hynny. .

v. Disgyblion CA4 a CA5 cyrsiau galwedigaethol yn ymweld â chartrefi henoed, ysgolion a sefydliadau lleol fel rhan o'u cyrsiau.

vi. Cynnal Gwasanaethau Nadolig o fewn cymunedau ein plant a'n pobl ifanc. Eleni cynhaliwyd gwasanaethau Nadolig fesul blwyddyn yn Eglwys y Plwyf am y tro cyntaf. Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr ysgol yng Nghapel Salem eleni eto

vii. Mae'r ysgol hefyd yn hybu ymwybyddiaeth o gymuned fyd-eang drwy brosiectau megys 'Connecting Classrooms'. Eleni aeth dwy athrawes ar ymweliad i Uganda adeg hanner tymor Chwefror.

viii. Mae disgyblion yr Ysgol yn teithio dramor yn gyson ac yn hyrwyddwyr da i'r Ysgol ac i ddiwylliant Cymraeg.

14. Dyddiadau'r Tymhorau ac amserau'r ysgol

Isod gwelir rhestr o ddyddiadau'r tymhorau a'r gwyliau am y flwyddyn academaidd 2010/11:

		Hanner Tymor			
Tymor	**Dechrau**	**Dechrau**	**Gorffen**	**Gorffen**	**Diwrnodau**
Hydref 2010	Iau 2 Medi	Llun 25 Hydref	Gwener 29 Hydref	Gwener 17 Rhagfyr	72
Gwanwyn 2011	Mawrth 4 Ionawr	Llun 21 Chwefror	Gwener 25 Chwefror	Gwener 15 Ebrill	69
Haf 2011	Mawrth 3 Mai	Llun 30 Mai	Gwener 3 Mehefin	Gwener 22 Gorffennaf	54
				Cyfanswm o ddiwrnodau	**195**

Dyddiadau penodol eraill:

Gŵyl Banc Calan Mai – Llun, 2 Mai 2011.

Mae gan ysgolion yr hawl i drefnu 5 o ddiwrnodau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer athrawon, ar adegau perthnasol yn ystod y flwyddyn. Dosberthir y dyddiadau ar ddechrau'r flwyddyn Ysgol ym mis Medi 2010.

DS. Efallai byddai rhieni am sylwi ar y ffaith bod Tymor y Gwanwyn yn hir iawn gan fod y Pasg mor hwyr. Byddwn yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl Gŵyl y Banc mis Mai.

Trefn y diwrnod ysgol:

8.30 o'r gloch y bore tan: 3.00 o'r gloch y prynhawn.
Egwyl bore: 10.45 - 11.05
Cyfnod cinio: 1.05 – 2.00
Mae pedair gwers yn ystod y bore ac un yn sesiwn y prynhawn.

ATODIAD / *APPENDIX 1*

Staff yr Ysgol / *School Staff*
2009 – 2010

Pennaeth / *Head Teacher*
Ms T. Anne Morris

Dirprwy Benaethiaid / *Deputy Head Teachers*
Mr Matthew Evans
Mrs Alyson Davies

Penaethiaid Cynorthwyol / *Assistant Heads*
Mr Elfed Charles
Mrs Elizabeth West

Arweinwyr Blwyddyn / *Year Leaders*

Miss Menna Lewis	Blwyddyn / *Years* 7
Mrs Gwawr Davies	Blwyddyn / *Year* 8
Mr Aled Rogers	Blwyddyn / *Year* 9
Ms Eleri Richards	Blwyddyn / *Year* 10
Mrs Mairwen Price	Blwyddyn / *Year* 11
Miss Menna Thomas	Arweinydd 6ed Dosbarth / *Leader 6th Form*
Mr Llŷr Evans	Cyd-lynydd Bagloriaeth Cymru Welsh Baccalaureate Coordinator

Mrs Marged Cartwright	Arweinydd Dysgu: y Gymraeg / *Leader of Learning: Welsh*
Mr Dewi George	Cymraeg / *Welsh*
Mr Dewi Rhisiart	Cymraeg / *Welsh*
Mrs Lynwen John	Cymraeg a Cymwyseddau / *Welsh and Competency*
Ms Jennifer Evans	Arweinydd Dysgu: Saesneg / *Leader of Learning: English*
Mrs Siân Locke	Saesneg / *English*
Mrs Stacey Facey	Saesneg / *English*
Mrs Gwawr Davies	Saesneg / *English*
Mrs Eleri Richards	Saesneg/Cymraeg / *English / Welsh*
Miss Ffion Hawkins	Arweinydd Dysgu: Mathemateg / *Leader of Learning: Mathematics*
Miss Sandra Hughes	Mathemateg / *Mathematics*
Mr Dylan Hughes	Mathemateg/Cymwyseddau / *Mathematics/Competency*
Mrs Ann Lewis	Mathemateg / *Mathematics*
Mr Owen Lewis	Mathemateg / *Mathematics*
Mr Gethin Lloyd	Mathemateg – *dros gyfnod mamolaeth* / *Mathematics – maternity cover*
Mr Berian John	Arweinydd Dysgu: Gwyddoniaeth / *Leader of Learning: Science*
Mr Eurig Thomas	Arweinydd Dysgu: Cemeg / *Leader of Learning Chemistry*
Mr Gareth Humphreys	Arweinydd Dysgu: Ffiseg / *Leader of Learning Physics*
Mrs Gwenan Brooks	Gwyddoniaeth / *Science*: Electroneg / *Electronics*
Miss Lisa Dwerryhouse	Gwyddoniaeth/Cymwysterau / *Science / Competency*
Mr Llŷr Evans	Gwyddoniaeth / *Science*
Mr Mark Porter	Gwyddoniaeth/Cymwysterau / *Science / Competency*
Mr Rhodri Thomas	Gwyddoniaeth/Mathemateg / *Science / Mathematics*
Mrs Carole Bryan-Jones	Arweinydd Dysgu: Hanes / *Leader of Learning: History*
Mrs Katherine Adsett	Hanes / *History*
Mrs Angharad Lloyd	Arweinydd Dysgu: Daearyddiaeth / *Leader of Learning: Geography* Miss
Victoria Andrews	Daearyddiaeth/Cymwyseddau / *Geography/Competency*
Mr Darren Lewis	Daearyddiaeth – dros gyfnod mamolaeth / *Geography – maternity cover*

Mrs Nia Thompson	Arweinydd Dysgu: Addysg Grefyddol / *Leader of Learning: RE* Cymwyseddau / *Competency*
Mrs Siriol Roberts	Addysg Grefyddol / *Religious Education*
Mr Ellis Phillips	Arweinydd Dysgu: Technoleg / *Leader of Learning: Technology*
Mr Ryan Griffiths	Dylunio a Thechnoleg / *Design and Technology*
Mr Robyn Davies	Dylunio a Thechnoleg / *Design and Technology*
Mr Hywel Tyler	Dylunio a Thechnoleg / *Design and Technology*
Mrs Rhiannon Robinson	Dylunio a Thechnoleg / *Design and Technology*
Mr Gary Jones	Arweinydd Dysgu: Technoleg Gwybodaeth / *Leader of Learning: IT*
Mr Gareth Evans	Technoleg Gwybodaeth/Cymwyseddau / *Information Technology / Competency*
Mr Osian George	Technoleg Gwybodaeth / *Information Technology*
Miss Gwenllian Rees	Arweinydd Dysgu: Ieithoedd Modern / *Leader of Learning: MFL*
Mrs Lyn West	Ieithoedd Modern / *Modern Languages*
Mrs Nia Rowlands	Ieithoedd Modern / *Modern Languages*
Miss Gwenno Rees	Arweinydd Dysgu: Celf a Dylunio – dros dro/ *Leader of Art and Design - temporary*
Miss Angharad Edwards	Celf / Cymwyseddau / Technoleg / *Art / Competency / Technology*
Miss Jenny Jones	Celf / *Art*
Miss Lowri Evans	Arweinydd Dysgu: Cerddoriaeth / *Leader of Learning: Music*
Mr Patric Stephens	Cerddoriaeth / Mathemateg / *Music / Mathematics*
Ms Manon Edwards	Arweinydd Dysgu: Drama / Cyfryngau / Celfyddydau Perfformio *Leader of Learning: Drama / Media / Perfforming Arts*
Ms Nerys Jones	Drama (Arweinydd dros dro mamolaeth / temporary maternity)
Ms Nia Williams	Dawns
Miss Catrin Owen	Drama / Cyfryngau / Saesneg / Drama / *Media / English*
Miss Menna Lewis	Drama / Sylfaen: Drama / Sylfaen
Miss Menna Thomas	Cymraeg / Cerddoriaeth / Sylfaen: *Welsh / Music* / Sylfaen
Mr Gwydion Lewis	Arweinydd Dysgu: Addysg Gorfforol / *Leader of Learning: PE*
Miss Kathryn Morgan	Addysg Gorfforol/*Physical Education*
Mr Aled Rogers	Addysg Gorfforol / Mathemateg / *Physical Education / Mathematics*
Mrs Mairwen Price	Addysg Gorfforol / *Physical Education*
Mrs Jan Lewis	Cydlynydd: Cyrsiau Galwedigaethol / Iechyd a Gofal *Co-ordinator: Vocational Courses / Health and Social Care*
Mrs Carys Watts	Cyrsiau Galwedigaethol / *Vocational Courses*
Mrs Margaret Bush	Sgiliau Sylfaenol / *Basic Skills*

Daraprwyr Allanol

Mrs Sam Thomas	CACHE
Mr Mark Azelwood	Arweinydd y Campau / *Sports Leader Award*
Mr Paul Sugru	Arweinydd y Campau / *Sports Leader Award*
Mrs Gwyneth Jones	Gwasanaethau Cyhoeddus / *Public Services*
Mr Geraint Cynan	Canu ar gyfer y cwrs Celfyddydau Perfformio / *Singing as part of Performing Arts*
Mr Steffan Williams }	'Blue Mountain' Sgiliau / *Skills*
Mr. Luke Evans }	

Cynorthwy-wyr Dysgu / Staff Cynorthwyol / *Learning Support Staff*:

Miss Bethan Gronow	Mr Hywel Gronow	Mrs Tina Eprile	Mrs Kim Garwood
Mr David Edwards	Mrs E Morgan-Jones		

Staff Cynorthwyol / *Support Staff:*

Mrs Fay Easterbrook	Ysgrifenyddes y Pennaeth / *Heads Secretary*
Mrs Jacky Coburn	Swyddog Cyllid / *Finance Officer*
Mrs Enfys Hughes	Swyddog Gweinyddol / *Administration Officer*
Mrs Andrea Burton	Swyddog Presenoldeb / *Attendance Clerk*
Miss Caru Shanahan	Swyddog Gweinyddol / *Administration Officer*
Mr Danny Crudge	Swyddog Derbynfa / Receptionist
Mrs Jessica Rees	Llyfrgellydd / *Librarian*
Mr Roy Davies	Swyddog Arholiadau / *Examinations Officer*
Mrs Nan Jones	Technegydd Gwyddoniaeth / *Science Technician*
Mrs Alison Pugh	Technegydd Gwyddoniaeth / *Science Technician*
Mr Gareth Jenkins	Technegydd / *Technician*
Ms Maria Trick	Arolygydd Cinio / Technegydd Gweinyddol *Lunchtime Supervisor / Administration Technician*

***ATODIAD / APPENDIX* 2**

DATGANIAD ARIANNOL DROS DRO AR GYFER 2009/2010
PROVISIONAL FINANCIAL STATEMENT FOR 2009/2010

TREULIAU CYFLOGI / ***EMPLOYEE COSTS***	**Cyfanswm y gwariant** ***Total Spent***
ATHRAWON (gan gynnwys Pennaeth, Athrawon Cyflenwi, Cymorth Darllen) *TEACHERS (including Head Teacher/Supply/Reading Support)*	2663200
LLAFURWYR (Gofalwr/Cynorthwywyr Goruchwylio/Glanhawyr) *MANUAL WORKERS (Caretaker/Supervisory Assistants/Cleaners)*	2600
APT+C Clerc yr Ysgol/Nyrs Feithrin/Cymorth Ysgol *APT+C (School Clerks/Nursery Nurses/School Aides).*	299400
MATERION YN YMWNEUD Â'R ADEILAD / ***PREMISES RELATED***	
ATGYWEIRIADAU I'R ADEILAD/SAFLE (materion cynnal a chadw/diogeledd) (PFI Costau Rheolwr Safle) *REPAIRS TO BUILDING/SITE, (including grounds maintenance/security)* *(PFI Facilities Management Charges)*	461400
GWASANAETH: TANNWYDD / DŴR / *UTILITIES*: *ENERGY / WATER*	Vinci yn talu *Paid by Vinci*
TRETHI LLEOL / *RATES*	259200
DEUNYDDIAU GLANHAU / *CLEANING MATRIALS*	Vinci yn talu *Paid by Vinci*
CYFLENWAD (STOC) GWASANAETHAU A THREULIAU ERAILL ***SUPPLIES, SERVICES AND OTHER EXPENSES***	
CYFARPAR/CELFI / *SCHOOL EQUIPMENT AND FURNITURE*	2800
POSTIO / *POSTAGE*	4400
FFÔN / *TELEPHONES*	5500
YSWIRIANT / *INSURANCE*	160
CLERC Y CORFF LLYWODRAETHU / GWEIYNYDDIAETH ARIANNOL/ LLUNGOPIO/MATERION/HYSBYSIAD PERSONEL *CLERKING GOVERNING BODY/FINANCIAL ADMINISTRATION/* *PHOTOCOPYING/ADVERTISING PERSONNEL*	33000
ARHOLIADAU/CYRSIAU DISGYBLION / *EXAMINATIONS/PUPIL COURSES*	120000
AMRYWIOL / *MISCELLANEOUS*	219600
CYFANSWM / *TOTAL*:	**4071260**
INCWM / ***INCOME***	
AMRYWIOL / *MISCELLANEOUS*	114600
CYFANSWM / *TOTAL*	**94200**